# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 29 Medi 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid
Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad


## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

### Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**C13 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae blaenoriaethau'r pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn cael eu hystyried ym mhroses y gyllideb? (OAQ37844)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21, gwahoddaf bob pwyllgor pwnc i gyflwyno'u barn ar y blaenoriaethau ar ddechrau proses gynllunio'r gyllideb. Ymgynghorir â phwyllgorau ar y gyllideb ddrafft hefyd pan gaiff ei chyhoeddi.

### Fformiwla Barnett

**C14 Mick Bates:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch newid y dyraniad y mae Cymru'n ei gael drwy fformiwla Barnett? (OAQ37869)

**Sue Essex:** Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd gyda Gweinidogion y Trysorlys ac yn codi materion pan fo'n briodol.

### Dod â ChCNC yn Rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru

**C15 Leighton Andrews:** Pa amcangyfrifon y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud o'r arbedion tebygol mewn gwariant cyhoeddus yn sgîl dod â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ37839)

**Sue Essex:** Mae'r broses o'u hymgorffori yn dal ar y cam cwmpasu. Bwriad y cam cyntaf, cynnar hwn o'r prosiect yw cronni ffeithiau a gwybodaeth ynghylch y ffordd y trefnir gwaith ar hyn o bryd, ac i nodi cyfleoedd posibl. Felly, nid oes amcangyfrifol manwl gywir ar gyfer arbedion ar gael ar hyn o bryd. Er hynny, caiff y wybodaeth a gesglir ei dadansoddi a llunnir achos busnes a fydd yn amlinellu'r arbedion amcangyfrifedig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

## Targedau a Chyllid Ailgylchu

**C14 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dargedau ailgylchu yng Nghymru, a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ailgylchu? (OAQ37822)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae strategaeth wastraff y Cynulliad ar gyfer Cymru yn gosod targedau cynyddol i awdurdodau lleol fel y caiff o leiaf 40 y cant o wastraff trefol ei ailgylchu neu ei gompostio erbyn 2009-10. Yn 2004-05, bydd y Cynulliad yn darparu £29.5 miliwn ar gyfer y strategaeth wastraff. O'r cyfanswm hwn, aiff £21 miliwn yn uniongyrchol i awdurdodau lleol. Caiff gweddill y cyllid ei ddefnyddio gan fwyaf i gyllido prosiectau a fydd yn cynorthwyo ymdrechion awdurdodau lleol i gynyddu ailgylchu a chompostio drwy gynorthwyo datblygiad y farchnad ar gyfer deunydd eilaidd a thrwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd.

## Gwaredu Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid mewn Gwastraff Cartrefi

**C15 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn gwastraff cartrefi? (OAQ37805)

**Carwyn Jones:** Nid yw deiliaid tai o dan unrhyw orfodaeth arbennig o safbwynt gwaredu gwastraff bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid yn y system casglu gwastraff cartrefi. Os oes trefniadau ar wahân gan awdurdod casglu gwastraff ar gyfer casglu gwastraff bwyd sy'n cynnwys cig neu gynhyrchion eraill sy'n tarddu o anifeiliaid, rhaid iddynt felly gydymffurfio â Gorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1999 fel y'i diwygiwyd yn 2001.